

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Dinbych, Nos Wener Mai 20fed 2022 am 6.30yh trwy Zoom

Presennol: Cynghorwyr Alyn Ashworth, Gaynor Wood-Tickle, Roy Tickle, Philip Stevens, Gaynor Morgan Rees, Pauline Edwards, Ruth Griffiths, Maxime Boucknooghe; and Jenny Barlow (Clerc y Dref) & Bethan Webber (Cynorthwydd Dinesig a Digwyddiadau).

Arsylwi: Y Parch Graham Floyd & Gweinidog Lleyg Trwyddedig Norma Rowles. Cyng Neil Gough (Biwmaris), Cyng Menna Jones (Rhuthun), Sonia Penlington (WCDYC (Elusen Gofalwyr Ifanc), Bethany Tudor (DASU (Cefnogaeth i Fenywod), Stuart Owen (Marsial Dinesig), Di Elez, Luky Trenchard, Sandra Winn & Partner Peter, Robert Jones & Richard Fitzgerald.

Croesawodd Clerc y Dref, Jenny Barlow, bawb i'r cyfarfod blynyddol eleni drwy zoom. Dywedodd Clerc y Dref nad oedd y Maer, Rhys Thomas yn gallu bod yn bresennol a chan nad oedd dirprwy gadeirydd yn bresennol gofynnodd am gynnig i gadeirio'r cyfarfod. Cynigiodd y Cyng Alyn Ashworth y Cyng Gaynor Wood-Tickle fel cadeirydd ac eiliwyd hyn gan y Cyng Roy Tickle. Nid oedd unrhyw wrthgynigion.

Croesawodd y Cyng Gaynor Wood-Tickle pawb i'r cyfarfod.

- 1 Gweddïau:** Agorodd cynrychiolydd Caplaniaid y Maer am y noson, Norma Rowles (Gweinidog Lleyg Trwyddedig) y cyfarfod gyda gweddïau.
- 2 Ymddiheuriadau:** Maer – Rhys Thomas, Y Parch Jane Finn, Peter Glynn (Swyddog Dinesig), Bryn Williams (Swyddog Dinesig) & Mike Andrews (Swyddog Dinesig).
- 3 Adroddiad Blynyddol y Maer:** Darllenodd y Cyng Gaynor Wood-Tickle yr anerchiad blynyddol ar ran y Maer, Rhys Thomas ar gyfer blwyddyn ddinesig 2021/2022 a diolchodd i'r Dirprwy Faer a'r Cymar am eu cefnogaeth.
- 4 Cyflwyniadau gan y Maer y Cynghorydd Rhys Thomas:** Darllenodd y Cyng Gaynor Wood-Tickle araith y Maer - codwyd £3713.11 i'w elusennau dewisol - Gofalwyr Ifanc Sir Ddinbych ac Uned Diogelwch Cam-drin Domestig.
- 5 Ethol Maer am y Flwyddyn 2021-2022:** Cynigiodd y Cyng Ruth Griffiths, eiliwyd gan y Cyng Pauline Edwards a phenderfynodd ethol y Cyng Alyn Ashworth yn Faer Dinbych ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2022/2023. Nid oedd unrhyw gwrth gynnig. Darllenodd a llofnododd y Cyng Alyn Ashworth y Datganiad Derbyn Statudol yn derbyn y swydd ym mhresenoldeb Clerc y Dref, y Cynigydd a'r Ail gynigydd.
- 6 Pleidlais o Ddiolch:** Cynigodd y Cyng Alyn Ashworth bleidlais o ddiolch i'r Maer yn Ymddeol. Bydd chyflwynad o Blac Dinesig a Bathodyn Cyn Maer i gofio am ei flwyddyn yn y swydd yn ddiweddarach . Bydd cyflwynad gan y Maer o Fathodyn Dinesig i Mrs Lynn Thomas i gofio ei blwyddyn yn Faeres yn ddiweddarach.
- 7 Anerchiad y Maer:** Diolchodd y Maer newydd ei Gynigydd a'i Eiliwr ac anerchodd y Cyfarfod. Dywedodd y Maer y Cyng Alyn Ashworth mai ei elusennau ar gyfer 2022/2023 fydd Achub Anifeiliaid Gogledd Clwyd, St Kentigern, Ty Gobaith a Scope.
- 8 Ethol Dirprwy Faer:** Cynigiodd y Cyng Alyn Ashworth, eiliwyd gan y Cyng Gaynor Morgan Rees a phenderfynodd ethol y Cyng Gaynor Wood-Tickle yn

Ddirprwy Faer ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2022/2023. Nid oedd unrhyw gwrth gynrig. Darllenodd a llofnododd y Cyng Gaynor Wood-Tickle y Datganiad Derbyn Statudol yn derbyn y swydd ym mhresenoldeb Clerc y Dref, y Cynigydd a'r Ail gynigydd.

- 9 **Dychweliad Presenoldeb ar gyfer y flwyddyn 2021/2022:** Cyfeiriodd y Maer at y presenoldeb ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2021/2022. Mabwysiadwyd a nodwyd.
- 10 **Penodi Caplan y Maer:** Penododd y Maer y Parch Jane Finn ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2022/2023.
- 11 **Sul Dinesig :** Cyhoeddodd y Maer y byddai'r Gwasanaeth Dinesig yn cael ei gynnal ddydd Sul y 17 o Orffennaf am 3yp yn Eglwys Santes Fair.
- 12 **Cynllun Iles:** Derbyniwyd hyn gan y cynghorwyr tref.
- 13 **Y Fendith:** I ddod â'r noson i ben, rhoddodd cynrychiolydd caplan y Maer Gweinidog Lleyg Trwyddedig Norma Rowles a roddodd y Fendith.

Caeodd y Maer y cyfarfod am 19.15 yh.

Llofnod:.....

Dyddiad:.....